



Y Bont

Cylchgrawn Eglwys Seilo Caernarfon

Ion/Chwe 2013
Rhifyn 193

Oedfaon mis Chwefror

3 Chwefror: Bore: **Gweinidog** - gweinyddir y Cymun yn oedfa'r bore
Cynhelir Bwrdd Masnach Dêg yn y cyntedd
Hwyr (4pm) - Uno yn **Salem**

10 Chwefror: Bore a Hwyr - **Y Parchg W. H. Pritchard**, Bae Treaddur

17 Chwefror: Bore: **Gweinidog**
Hwyr - Oedfa Undebol eglwysi'r dref yn **Noddfa** am 3pm

24 Chwefror: Bore a Hwyr - **Y Parchg Trefor Lewis**

3 Mawrth: Bore: **Y Parchg Harri Owain Jones**
Hwyr (4pm): Uno yn **Salem**

Am newyddion, gwybodaeth a lluniau gweler tudalen Eglwys Seilo ar
www.henaduriaetharfon.org

Digwyddiadau Mis Chwefror

Nos Lun 4 Chwefror (7.30pm) - **Y Gymdeithas Lenyddol:**
Sgwrs gan Mr Iolo Thomas

Nos Lun 18 Chwefror (7pm) - **Cymdeithas Chwiorydd Seilo**
gyda Siwan Haf o Gwmni Botwm

Nos Fercher 20 Chwefror (7pm) - cynhelir y cyntaf o **gyfarfodydd y**
Grawys yn Ebeneser

Nos Fercher 27 Chwefror (7pm)- ail gyfarfod y Grawys yn Salem

Nos Lun 4 Mawrth (7.30pm) - **Swper Gŵyl Ddewi y Gymdeithas**
Lenyddol yng nghwmni'r Parchg Ddr Huw John Hughes

Seiat bob dydd Mercher am 10am
Y Gell Weddi bob dydd Iau am 10.30am
Taro Mewn yn Salem bob dydd Mawrth rhwng 10 ac 11 am

Am Eiliad

Dwi'n siŵr ein bod ni i gyd yn falch bod Mrs Kitty Roberts yn gwella yn dilyn cyfnod o waeledd dros y Nadolig. Nid yn unig iddi dreulio'r Nadolig yn Ysbyty Gwynedd, ond ei phen-blwydd yn 103 mlwydd oed yn ogystal! Dymunwn yn dda iddi wedi iddi ddychwelyd adra.

Un cwestiwn sy'n cael ei ofyn yn aml iddi, ac i bawb sydd wedi cyrraedd oedran teg ydi: "Be di'ch cyfrinach chi? Oes 'na rywbeth fedrwch chi ei rannu hefo ni?" Yn amlach na pheidio, yr ateb ydi, ymatal rhag ysmegu neu yfed y ddiod gadarn! Ac eto roedd un hen fachgan wedi cyrraedd ei gant a phump yn ymfalchïo ei fod yn tanio ei getyn bob dydd! Does 'na ddim rysâit ar gyfer cyrraedd y cant neu fwy! A gwn y bydda Mrs Kitty Roberts yn cytuno â hynny.

Rydym eisoes wedi cyrraedd ail fis 2013 a llawer o'r addunedau a wnaed ar Ddydd Calan eisoes wedi eu torri gan sawl un ohonom. Rwyf i, fel miloedd yr un fath â mi, angen colli pwysa, ond dechra yr 'wsnos nesa' ydi hi hyd yma. Onid oedd rhaid bwyta'r holl siocled a chacennau oedd yn weddill ar ôl y Dolig? A dyma fi â'r ddeuair 'colli pwysa' yn hofran uwch fy mhen fel hen gydwybod euog!

Ond colli pwysa neu beidio, wn i ddim am yr un rysâit all sicrhau bywyd dibryder llawn hapusrwydd. Wyddoch chi? Ddarau Iesu Grist erioed addo bywyd felly i neb o'i ddilynwyr. Wedi'r cyfan, bywyd digon helbulus gafodd o ar y ddaear, a thair blynedd ei weinidogaeth yn ei arwain i Groes Calfaria. Cofiwn iddo lefaru geiriau fel

hyn wrth ei ddilynwyr: " Os myn neb ddod ar fy ôl i, rhaid iddo ymwadu ag ef ei hun a chodi i groes a'm canlyn i." (Marc 8:34).

Nid addewid am fywyd esmwyth a geir yn yr Ysgrythurau, ond yn hytrach addewid am nerth a chynhaliaeth i wynebu treialon bywyd ac i fyw yn ddedwydd. Ond nid addewid di amod mohono chwaith, ond yn hytrach fe'n gwahoddir fel Cristnogion i ddilyn ffordd Iesu Grist. Ac fe olyga hynny **aros** yn ei gwmi mewn cyfnodau o hawddfyd ac adfyd. Gall y byd 'ma fod yn lle digon brwnt ar adegau gyda'r naill ergyd ar ôl y llall yn ein llethu. Pan ddigwydd hynny, da ydi cofio geiriau Iesu: "Yr wyf yn gadael i chwi dangnefedd; yr wyf yn rhoi i chwi fy nhangnefedd i fy hun. Nid fel y mae'r byd yn rhoi yr wyf fi'n rhoi i chwi. Peidiwch â gadael i ddim gynhyrfu'ch calon, a pheidiwch ag ofni." (Ioan 14: 27)

Ydi, mae Mrs Kitty Roberts wedi cyrraedd adra wedi treulio wythnosau yn yr ysbyty. Doedd hi ddim am geisio ateb y cwestiwn a ofynnwyd iddi sawl tro ynglŷn â chyfrinach byw yn hen. Ond un peth mae hi'n diolch amdano bob dydd ydi caredigrwydd ffrindia, a llawer iawn ohonyn nhw yn aelodau yn Seilo. Gall beichiau bywyd fod yn haws i'w hysgwyddo yng nghwmni ffrindia.

Gwenda Richards

Coffâd

Arthur Rowlands, Arenig, Ffordd Bethel

Nid gormodiaith yw dweud bod **Arthur Rowlands** yn seren ddisglair yn Seilo ac yn nhref Caernarfon. Golygfa hardd oedd ei weld yn cerdded y stryd yng nghwmni un o'i gŵn tywys. Roedd ymhlith y dewraf o blant dynion, a bu'n fraint cael ei gwmi. Anghofiwn ni fyth mo'i sgwrsio diddorol a byrlymus nac ychwaith ei natur hawddgar a'i anwylddeb cynhenid. Fel eglwys, cawsom drysor yn Arthur a diolchwn amdano. Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â Carol a Gareth a'r teulu oll yn eu hiraeth am dad a thaid a hen daid heb ei ail, brawd hoff a ffrind cywir.

Margaret Needham, Cartref Nyrsio Penisarwaun

Gwraig dawel iawn oedd **Miss Margaret Needham** yn llawn anwylddeb. Cofiw'n am brydferthwch ei phersonoliaeth gywir iawn nad oedd unrhyw falais yn perthyn iddi. Byddai ei sgwrs yn aml yn troi o gwmpas ei theulu, yn arbennig ei mhâm, a chât bleser o hel atgofion. Cydymdeimlwn â'i theulu yn eu profedigaeth

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â **Mrs Morfudd Morris**, 24 Tyddyn Llwydyn, sydd wedi colli ei chwaer yn ddiweddar. Roedd ei chwaer yn aelod ffyddlon yng nghapel Mynydd Seion, Abergele, ac yno y cynhaliwyd ei hangladd ddydd Iau, 24 Ionawr.

Gwaeledd

Anfonwn ein dymuniadau da at bawb a fu'n wael yn ddiweddar. Da yw deall bod **Mrs Peggy Parry**, Seibiant, Lôn Ddewi, wedi dychwelyd o'r ysbyty ac yn gwella yn dilyn llawdriniaeth. Dyna hefyd hanes **Mr Emrys Jones**, Llwyn

y Gân, Ala Las, a **Mr Ellis Llywelyn Jones**, Tegfan, Ffordd Cae Garw. Treuliodd **Mrs Mair Davies**, 39 Llys yr Eifl, Parc yr Hendre, **Mr Ieuan Williams**, Caron, Yr Hwylfa a **Mr Tom Vaughan Jones**, 9 Glan y Môr, y **Parchedig Iorwerth Jones Owen**, Bryn Awel, Lôn Ysgubor Wen a **Mrs Eurwen Price Jones**, 8 Stryd y Farchnad, gyfnod yn Ysbyty Gwynedd. Cafodd **Mrs Sioned Clwyd Jones**, Cae Synamon, Ffordd Bangor driniaeth yn Ysbyty Gobowen. Treuliodd **Mrs Kitty Roberts**, Arfryn, 2 Ffordd Eryri, ei phen-blwydd yn 103 a'r Nadolig yn Ysbyty Gwynedd, ond mae hi bellach yn ôl adra yn dilyn cyfnod yn Ysbyty Eryri. Yn Ysbyty Eryri hefyd mae **Mrs Gwen Jones**, 28 Tyddyn Llwydyn, Parc yr Hendre. Mae **Dr W Gwyn Lewis**, Llys Cerdd, Cae Gwyn a **Mrs Ann Hughes**, Llain Gwyn, Bryn Rhos, Rhosbdruall, wedi cael triniaeth lawfeddygol yn ddiweddar. Dymunwn wellhad buan i'r ddau ohonynt.

Apêl Guatemala

Anfonwyd sic am £6,300 i Apêl Guatemala Eglwys Bresbyteraidd Cymru 2012, sef cyfanswm nôd Eglwys Seilo. Roedd £304.06 yn Rhodd Cymorth. Diolch i bawb a weithiodd yn ddiflino trwy gydol y flwyddyn i gyrraedd y swm anrhydeddus hwn.

Bedyddiadau

Hyfrydwch yn Seilo, bore Sul, 2 Rhagfyr, oedd gweld bedyddio tri o blant gan y Gweinidog, y Parchedig Gwenda Richards. Merch fach Owain Lemin a Llinos Ann Roberts, 2 Llys Meirion, yw **Lliwen Lemin**, a chyfnither iddi, merch i Delyth Lemin Roberts, Llangefni, yw **Sara Mai**.

Mae **Celyn Gill**, yn ferch i Stephen Williams a Donna Roberts, 12 Ffordd Glascoed. Llongyfarchwn y teuluoedd a dymuno bendith Duw arnynt.

Cyfeilyddion y Sul

Yn ystod y chwarter canrif a mwy diwethaf ni fu prinder cyfeilyddion yn Seilo. Ond, ysywaeth, daeth tro ar fyd, ac erbyn hyn fe rennir y gwaith rhwng ychydig o gyfeillion sy'n barod i gyfeilio yn oedfaon y Sul. Gobeithir bod rhywrai ymysg yr aelodau fyddai'n barod i wirfoddoli a dod yn rhan o'r tîm cyfeilyddion yn Seilo. Nid oes disgwyl i neb fod yn gyfrifol am fis cyfan, byddai un bore neu nos Sul yn awr ac yn y man yn gymorth mawr. Mae rhyddid i ddefnyddio'r organ neu'r piano. Pe gallech gynorthwyo cysylltwch un ai â'r gweinidog (676435) neu â Mrs Helena Jones Owen (671047).

Blodau'r Cysegr

Dyma'r rhai fydd yn gyfrifol am y blodau yn Seilo yn ystod mis Chwefror : Mrs Glenys Trainor (3); Mrs Ceri Williams (10); Mrs Beryl Roberts (17). Mae'r 24ain angen ei lenwi.

Ocsiwn Llawysgrifau a Chreiriau o ddiddordeb Cymreig

Mae'n fwriad gan y gweinidog i gynnal 'Ocsiwn Llawysgrifau a Chreiriau o ddiddordeb Cymreig' yn ystod y Gwanwyn i chwyddo Cronfa Apêl Ysbyty Shillong Dymuna gyflwyno siec anrhydeddus i Dr David, Cyfarwyddwr yr Ysbyty, cyn diwedd y flwyddyn. Os oes gan rywun lawysgrif, sef llythyr neu lofnod neu gerdd mewn llawysgrifen (Cymraeg neu Saesneg) sy'n hel llwch, neu unrhyw grair megis cwpan neu lun a

chyswllt Cymreig iddo; byddai'r gweinidog yn falch o glywed gennych. Pwysleisia'r gweinidog mai gweithred unigol ganddi hi yw'r Ocsiwn, ac nad yw'n disgwyl cymorth cyffredinol gan Seilo. Ond ar yr un pryd, yn dilyn ymweliad chwiorydd Shillong â Seilo, yn 2011, dymuna roi cyfle i unrhyw un sy'n dymuno i gynorthwyo'r fenter.

Diolch

Dymuna'r Gweinidog ddiolch i bawb am eu dymuniadau da yn ystod cyfnod ei gwaeledd yn ddiweddar. Diolch arbennig i'r Parchedig Harri Parri, y Parchedig Dafydd Lloyd Hughes a'r Parchedig Trefor Jones am bob cymorth.